# Hysbysiadau Cosb am golli'r Ysgol/ Darpariaeth Addysg Amgen yn rheolaidd

# Côd Ymddygiad

## ADOLYGWYD GORFFENNAF 2019

## Sail Gyfreithiol a Rhesymegol

Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 a ddaeth i rym ym mis Medi 2013 yn rhoi’r opsiwn i Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyflwyno hysbysiad cosb fel un o’r ymyriadau sydd ar gael i wella presenoldeb mewn ysgolion. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ‘Canllawiau ar gyfer hysbysiadau cosb am golli’r ysgol yn rheolaidd’ (Gweler www.llyw.cymru)

Mae mynychu ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon yn rheidrwydd cyfreithiol ar ddisgyblion, ac yn hollbwysig i ddisgyblion fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd addysg sydd ar gael iddynt. Mae'n drosedd os nad yw rhiant/gofalwr yn sicrhau bod ei blentyn yn bresennol yn rheolaidd yn yr ysgol/darpariaeth amgen ac nad yw'r ysgol yn awdurdodi'r absenoldeb.

Mae Adrannau 444A a 444B o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi y gellir ymdrin â rhai achosion o absenoldeb anawdurdodedig drwy hysbysiad cosb. Dirwy o hyd at £120 yw hysbysiad cosb a gellir ei roi i riant/gofalwr am nad yw ei blentyn yn bresennol yn rheolaidd yn yr ysgol/darpariaeth amgen.

Cyngor Sir Gaerfyrddin sydd â'r prif gyfrifoldeb am ddatblygu'r protocol y bydd yr holl bartneriaid a enwir yn Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 yn gweithredu oddi mewn iddo a bydd y Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion yng Nghyngor Sir Caerfyrddin yn cyflawni'r swyddogaeth hon.

Gall penaethiaid, gan gynnwys eu dirprwy benaethiaid a’u penaethiaid cynorthwyol awdurdodedig, ofyn i Gyngor Sir Caerfyrddin gyflwyno hysbysiad cosb mewn perthynas â rhieni/gofalwyr plant sydd ag absenoldeb anawdurdodedig o'r ysgol/darpariaeth amgen.

Mae'n rhaid i'r broses o gyflwyno hysbysiadau cosb gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Hawliau Dynol, deddfwriaeth Cyfle Cyfartal a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol arall.

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn parhau i ymchwilio i achosion o bresenoldeb afreolaidd yn yr ysgol/darpariaeth amgen ac yn dilyn gwaith achos priodol, bydd yn cychwyn achos cyfreithiol os bydd angen. Fodd bynnag, mae hysbysiadau cosb yn

fodd o roi ymyriadau cyflym ar waith y gall Cyngor Sir Caerfyrddin eu defnyddio i ddelio â materion diffyg presenoldeb rheolaidd cyn i hynny fynd yn broblem reolaidd.

Bydd y broses o gyflwyno hysbysiadau cosb yn seiliedig ar feini prawf trothwyon clir a fydd yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn deg ledled Sir Gaerfyrddin. Mae'n rhaid i bawb sydd wedi'u hawdurdodi i gyflwyno hysbysiad cosb (a gofyn iddo gael ei gyflwyno) gydymffurfio â'r canllawiau a nodir yn y côd ymddygiad hwn.

## Materion cynhwysiant a chydraddoldeb

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i wella cyflawniad ei holl ddisgyblion yn barhaus. Mae disgwyl bod pob disgybl, ni waeth beth yw ei amgylchiadau neu ei anghenion unigol, yn gallu sicrhau ei hawl i addysgu a dysgu o ansawdd uchel. Felly mae presenoldeb rheolaidd yn hanfodol i sicrhau bod ein holl ddisgyblion yn llwyddiannus a'u bod yn elwa ar y cyfleoedd a gyflwynir iddynt. Mae presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd yn hanfodol i alluogi plant i gyrraedd eu potensial llawn yn ystod y tymor yn yr ysgol. Mae presenoldeb rheolaidd hefyd yn sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn lleihau'r posibilrwydd o chwarae triwant a gweithgareddau gwrthgymdeithasol cysylltiedig.

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi ymrwymo i sicrhau bod rhieni/gofalwyr a disgyblion yn derbyn cefnogaeth ar lefel darpariaeth amgen/ysgol i oresgyn rhwystrau i bresenoldeb rheolaidd trwy ystod eang o strategaethau asesu ac ymyrraeth. Dylid defnyddio sancsiynau'n unig os yw cydweithrediad o du'r rhieni/gofalwyr naill ai'n absennol neu'n annigonol ar gyfer datrys y broblem.

Mae'r sancsiwn hwn yn fodd o orfodi presenoldeb lle gellir disgwyl yn rhesymol y bydd ei ddefnyddio'n sicrhau gwelliant.

## Polisi a Chyhoeddusrwydd

I sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn llwyr ymwybodol o'r ddeddfwriaeth ynghylch hysbysiadau cosb, disgwylir i bob ysgol, gyda chefnogaeth ei chorff llywodraethu, gyflwyno'r wybodaeth am hysbysiadau cosb yn glir yn ei pholisi presenoldeb a dogfennaeth berthnasol arall.

## Trefniadau Cyfreithiol

- £60 yw hysbysiad cosb os caiff ei dalu o fewn 28 diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad;

- Mae hyn yn codi i £120 os caiff ei dalu ar ôl 28 diwrnod ond o fewn 42 diwrnod i'r hysbysiad gwreiddiol;
- Os na thelir y gosb yn llawn cyn pen 42 diwrnod, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin naill ai'n erlyn am y drosedd neu'n tynnu'r hysbysiad yn ôl mewn rhai amgylchiadau.

## Cyflwyno hysbysiad cosb

I osgoi cyflwyno hysbysiadau cosb dyblyg, cyfrifoldeb Cyngor Sir Caerfyrddin yn unig fydd y trefniadau rheoli a phrosesu yn Sir Gaerfyrddin.

Bydd gan swyddog awdurdodedig yng Nghyngor Sir Caerfyrddin y disgresiwn i benderfynu a ddylid cyflwyno hysbysiad cosb i un neu fwy o rieni/gofalwyr plentyn; yr amgylchiadau penodol ym mhob achos unigol fydd y ffactor hanfodol wrth benderfynu.

Caniateir rhoi hysbysiad cosb mewn achosion o absenoldeb anawdurdodedig yn unig; lle mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn fodlon bod digon o dystiolaeth i ddangos bod y rhiant/gofalwr wedi cyflawni trosedd o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.

Byddwch yn ymwybodol o'r canlynol: -

- tri hysbysiad cosb yw'r uchafswm y caniateir ei roi i bob rhiant, fesul disgybl o fewn blwyddyn ysgol academaidd. Os bydd mwy nag un rhiant yn atebol am y drosedd, mae modd rhoi hysbysiad cosb ar wahân i bob rhiant;
- gellir cyflwyno hysbysiadau cosb ar gyfer mwy nag un plentyn fesul teulu lle bo hynny'n briodol;
- ni fydd cyfyngiad ar faint o weithiau y gall rhiant dderbyn rhybudd ffurfiol am hysbysiad cosb posibl;
- ni chaniateir cyflwyno hysbysiadau cosb mewn perthynas â phlentyn os oes achos cyfreithiol yn erbyn y rhiant/gofalwr o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996 wedi cychwyn neu yn cael ei ystyried mewn perthynas â'r plentyn hwnnw, ar adeg gwneud cais.

## Amgylchiadau ar gyfer cyflwyno hysbysiad cosb

Cyfrifoldeb yr ysgolion/darpariaeth amgen fydd **gofyn** i Gyngor Sir Caerfyrddin gyflwyno hysbysiad cosb a bydd y ceisiadau hynny dim ond yn cael eu hystyried pan fydd tystiolaeth gadarn o absenoldeb anawdurdodedig yn sgil yr amgylchiadau canlynol: - -

- bod disgybl wedi colli o leiaf 10 sesiwn (5 diwrnod ysgol) oherwydd absenoldeb anawdurdodedig yn ystod y tymor ysgol presennol.

- bod disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn rheolaidd h.y. ar ôl cau'r gofrestr (cod 'U' fel yn Nogfen Canllawiau Codau 2010). At ddibenion y ddogfen hon,

ystyr ‘rheolaidd’ yw bod y plentyn yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer o leiaf 10 sesiwn yn ystod y tymor ysgol presennol.

**Nid oes rhaid i'r absenoldebau hyn fod yn olynol a gallant fod yn gyfuniad o'r uchod.**

**Sylwer y bydd presenoldeb cyffredinol y disgybl hyd yma a’r amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried cyn cyflwyno unrhyw hysbysiad cosb.**

**Bydd hysbysiadau cosb yn cael eu cyflwyno trwy'r post yn unig ac ni fydd hynny byth yn cael ei wneud ar unwaith, e.e. yn ystod Cyrch Triwantiaid. Bydd hyn yn galluogi swyddogion i sicrhau bod yr holl ofynion tystiolaethol ar waith a bydd yn cyfyngu ar risgiau iechyd a diogelwch yr unigolion.**

## Cais ysgol am gyflwyno hysbysiad cosb

Pan fydd ysgol wedi nodi bod cyfnod o absenoldeb anawdurdodedig wedi digwydd, gellir cyflwyno cais i Gyngor Sir Caerfyrddin am hysbysiad cosb. Gall pob Pennaeth awdurdodi ei Bennaeth Cynorthwyol neu ei Ddirprwy Bennaethsydd wedi'i enwebu ganddo i ofyn am hysbysiadau cosb.

Dylai gwaith papur yr ysgol gynnwys:

- ffurflen gais am hysbysiad cosb wedi'i llenwi ac unrhyw ddogfennaeth ategol;
- copi o ddogfen gofrestru'r disgybl;
- Cadarnhad bod gwybodaeth wedi'i dosbarthu i'r holl rieni/gofalwyr ar ddechrau'r flwyddyn academaidd sy'n nodi'n glir o dan ba amgylchiadau y mae modd cyflwyno hysbysiad cosb.

Ni chyflwynir hysbysiad cosb mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal (PDG) sy'n destun ymyrraeth barhaus gan yr Awdurdod Lleol.

## Gweithdrefn ar gyfer cyflwyno hysbysiad cosb

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymateb i bob cais yn ymwneud â chyflwyno hysbysiadau cosb cyn pen 14 diwrnod ysgol ar ôl ei dderbyn. Pan fydd y Cyngor yn fodlon bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i darparu, bydd yn ystyried cyflwyno'r hysbysiad cosb.

Mae'r weithdrefn fel a ganlyn:

- Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn cais am hysbysiad cosb gan yr ysgol/darpariaeth amgen.

- Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnal ymholiadau rhagarweiniol ynghylch y cais.

- Os yw'n fodlon y dylai'r cais gael ei symud ymlaen i'r cam nesaf, bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn anfon llythyr ffurfiol at y rhiant/gofalwr yn rhoi gwybod iddo am y gais am hysbysiad cosb ac yn rhoi cyfle iddynt ddarparu unrhyw dystiolaeth sy'n angenrheidiol i esbonio'r absenoldeb anawdurdodedig cyn pen 15 diwrnod.
- Y Pennaeth/unigolyn a enwebwyd fydd yn penderfynu a yw'r dystiolaeth yn cael ei derbyn, a bod y gofrestr yn cael ei diwygio.

Er enghraifft, os cefnogir yr absenoldebau gan dystiolaeth feddygol, yna mae'n bosibl y bydd yn rhaid cywiro'r cofrestrau gan ddefnyddio'r côd priodol. Dan amgylchiadau o'r fath ni chaniateir i Gyngor Sir Caerfyrddin gyflwyno'r hysbysiad cosb.

Os na ddarperir tystiolaeth neu os nad yw'r pennaeth/unigolyn a enwebwyd yn derbyn yr absenoldebau a bod Cyngor Sir Caerfyrddin o'r farn ei bod yn briodol, yna gellir anfon hysbysiad cosb trwy'r post â stamp dosbarth cyntaf.

## Talu hysbysiad cosb

£60 yw hysbysiad cosb os caiff ei dalu cyn pen 28 diwrnod o'i gyflwyno: -

- os telir £60 cyn pen 28 diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad, ni fydd unrhyw gamau pellach;
- os na chaiff y taliad o £60 ei dalu, bydd yn codi i £120 os caiff ei dalu ar ôl 28 diwrnod ond cyn pen 42 diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad gwreiddiol;
- os telir £120 cyn pen 42 diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad gwreiddiol, ni fydd unrhyw gamau pellach;
- os na chaiff hwn ei dalu, yna gallai hyn arwain at erlyniad o dan adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.

Bydd trefniadau ynglŷn â thalu yn cael eu nodi ar yr hysbysiad cosb **ac nid oes modd talu fesul tipyn.**

Ar ôl ei dalu, mae atebolrwydd y rhiant/gofalwr am y cyfnod dan sylw yn cael ei ryddhau ac yna ni ellir eu herlyn wedi hynny o dan bwerau gorfodi eraill (adran 444 o Ddeddf Addysg 1996) am yr un cyfnod a gwmpesir gan yr hysbysiad.

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw'r refeniw o hysbysiadau cosb i dalu costau gorfodi. Fodd bynnag, mae'n rhaid rhoi unrhyw arian dros ben i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Peidio â thalu hysbysiad cosb

Gall peidio â thalu'r hysbysiad cosb arwain at erlyniad o dan Adran 444(1) neu(1A) o Ddeddf Addysg 1996. Sylwer mai am y drosedd o fethu â sicrhau bod y plentyn yn bresennol yn rheolaidd yn yr ysgol fydd achos yr erlyniad ac nid am beidio â thalu'r hysbysiad cosb.

Ymhlith y cosbau y gall Llys Ynadon eu dyfarnu am drosedd Adran 444(1) y mae dirwy nad yw'n fwy na £1,000, ac am drosedd adran 444(1A) dirwy nad yw'n fwy na £2,500 a/neu gyfnod yn y carchar nad yw'n fwy na thri mis.

## Tynnu hysbysiad cosb yn ôl

Yn unol â Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013, ar ôl ei gyflwyno, caniateir tynnu hysbysiad cosb yn ôl dim ond os yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn fodlon:

- Na ddylai fod wedi ei gyflwyno h.y. pan na gafodd ei chyflwyno yn unol â thelerau'r Côd Ymddygiad hwn neu pan na chyflawnwyd unrhyw drosedd;
- Na ddylai fod wedi'i gyflwyno i'r person a enwir ar yr hysbysiad; neu
- Ei bod yn ymddangos i Gyngor Sir Caerfyrddin fod yr hysbysiad yn cynnwys camgymeriadau sylfaenol.

Os hoffai rhiant/gofalwr ofyn am i'r hysbysiad gael ei dynnu'n ôl gan ei fod yn credu bod un neu fwy o'r meini prawf uchod yn cael eu bodloni, yna mae'n rhaid iddo gyflwyno cais ysgrifenedig i'r swyddog awdurdodedig yng Nghyngor Sir Caerfyrddin cyn pen 14 diwrnod o ddyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad. (gweler y manylion cyswllt isod)

Ar ôl derbyn y cais, bydd y swyddog awdurdodedig yn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid tynnu'r hysbysiad yn ôl.

Yna, bydd y swyddog awdurdodedig yn ysgrifennu at y rhiant/gofalwr i roi gwybod iddo a yw ei gais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.

Pan fydd hysbysiad cosb wedi'i dynnu'n ôl yn unol â'r meini prawf uchod, ni fydd unrhyw achos yn parhau nac yn cael ei gychwyn yn erbyn derbynnydd yr hysbysiad

am y drosedd y cyflwynwyd yr hysbysiad a dynnwyd yn ôl mewn perthynas â hi, neu am drosedd o dan adrannau 444 o Ddeddf Addysg 1996 am y drosedd a oedd yn deillio o'r amgylchiadau am y cyfnod a gwmpesir gan hysbysiad cosb.

**Hawl i Apelio**

Nid oes hawl statudol i apelio yn erbyn cyflwyno hysbysiad cosb, ond pan fydd rhiant/gofalwr yn herio cyflwyno hysbysiad cosb, mae modd iddo gyflwyno tystiolaeth i'r swyddog awdurdodedig yng Nghyngor Sir Caerfyrddin cyn pen 14 diwrnod ar ôl i'r hysbysiad gael ei gyflwyno. Os nad yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn y dystiolaeth, yna saif yr hysbysiad o hyd , ac mae'r amserlen wreiddiol o ran talu yn dal i fod yn berthnasol.

**Adolygiadau ac adroddiadau blynyddol**

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn monitro'r defnydd o hysbysiadau cosb benodedig fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd. Bydd data hefyd ar gael i Lywodraeth Cymru ar gais.

Caiff y Côd Ymddygiad hwn ei adolygu'n flynyddol a gellid ei ddiwygio gan ddibynnu ar ganlyniad gweithrediad y flwyddyn flaenorol. Bydd yr adroddiad hwn ar gael i Bennaeth y Gwasanaeth

**Sut i gael rhagor o wybodaeth**

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y Côd Ymddygiad hwn, y broses o gyflwyno hysbysiadau cosb neu os ydych yn dymuno cysylltu â'r swyddog awdurdodedig yng Nghyngor Sir Caerfyrddin, yna cysylltwch â'r tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion drwy'r manylion isod:

Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion,
2il Lawr,
Tŷ Elwyn,
Llanelli,
SA15 3AP
01554 742369
educationwelfare@sirgar.gov.uk